

**Cyngor Sir Penfro
Pembrokeshire County Council**



**GORFODI PARCIO SIFIL
ADRODDIAD BLYNYDDOL**

CHWEFROR 2011 I FAWRTH 2012

CYFARWYDDIAETH DRAFNIDIAETH A'R AMGYLCHEDD

Gorfodi Parcio Sifil – Adroddiad Blynyddol 2011/12

Rhifyn: 1; 08 Tachwedd 2012

Cynnwys

1. Rhagarweiniad gan y Cynghorydd Rob Lewis
2. Strategaeth a Pholisi
3. Darpariaeth Parcio yn Sir Benfro
4. Ein Gwasanaethau
5. Cyflwyno'r Gwasanaeth Gorfodi Parcio Sifil
6. Heriau, Sylwadau ac Apeliadau
7. Cyflawni Perfformiad ac Ystadegau
8. Gwybodaeth Ariannol
9. Datblygiadau a Mentrau am y Dyfodol
10. Casgliadau

Atodiadau

1.0 Rhagarweiniad

Gan y Cyngorydd Rob Lewis,
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet, Priffyrdd a Chynllunio

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen yr Adroddiad Blynyddol hwn. Hwn yw'r adroddiad blynyddol cyntaf a gyhoeddwyd gennym, yn unol â gofynion Deddf Rheoli Traffig 2004. Rydym yn croesawu'r cyfle i'ch hysbysu am sut y mae Cyngor Sir Penfro yn cyflawni ei wasanaethau gorfodi parcio a gwasanaethau cysylltiedig, ac i osod y gwasanaeth mewn cyd-destun â'n dyletswyddau a'n polisiau eraill yng nghyswllt rheoli'r rhwydwaith ffyrdd.

Dechreuwyd Gorfodi Parcio Sifil gan y Cyngor Sir, o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004, ar 1 Chwefror 2011 pan symudwyd y pwerau i orfodi tramgwyddau o Heddlu Dyfed Powys. O'r dyddiad hwnnw, mae Swyddogion Gorfodi Sifil wedi gorfodi cyfyngiadau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd ar bob heol y Sir ac ym mhob maes parcio sy'n eiddo i'r Cyngor. Mae'r adroddiad hwn yn cwrmpasu'r cyfnod rhwng 1 Chwefror 2011 a 31 Mawrth 2012. Ei fwriad yw esbonio i aelodau'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill sut y rheolir parcio yn Sir Benfro a chyflwyno gwybodaeth am rai o'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu. Ei nod yw dangos bod y Cyngor yn gweithredu gweithgareddau gorfodi parcio mewn modd teg a chyson yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Mae'r adroddiad yn cynnwys dolenni i wefan y Cyngor sy'n cynnig cyngor ar sut i osgoi parcio'n amhriodol, osgoi'r tebygolrwydd o dderbyn Hysbysiad Tâl Cosb ac ar ba gyfyngiadau sy'n berthnasol i wahanol strydoedd y Sir.

Mae preswylwyr, busnesau, cymudwyr, pobl anabl, siopwyr ac ymwelwyr ymhlith y grwpiau sydd ag anghenion gwahanol parcio a theithio. Yn Sir Benfro, mae gennym Sir hardd a hanesyddol, ond adeiladwyd llawer o'n strydoedd a'n heiddo ymhell cyn i lefel perchnogaeth cerbydau gyrraedd lefelau heddiw. Mae rheoli traffig a pharcio yn helpu'r cyngor sicrhau y gellir rhannu'r ardaloedd parcio sydd ar gael mewn modd teg a thryloyw.

Ceir elfen fach o fodurwyr nad ydynt yn talu unrhyw sylw i gyfyngiadau ac sy'n parcio'n anghyfreithlon am ei fod yn gyfleus iddynt ac nid ydynt yn ystyried yr anghyfleustra i eraill. Mae hyn yn annerbyniol oherwydd gall parcio anghyfrifol yn gyflym achosi tagfeydd neu amharu ar lif y traffig.

Gobeithio bydd y wybodaeth hon o gymorth i chi. Rydym yn benderfynol o barhau yn ein dyletswydd i orfodi cyfyngiadau parcio mewn modd teg a thryloyw.

2.0 **STRATEGAETH A PHOLISI**

2.1 **Cefndir**

Mae Deddf Rheoli Traffig 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Prifffyrdd:

- Reoli'r Briffordd i sicrhau bod traffig yn symud ar y Rhwydwaith.
- Hwyluso traffig i symud.
- Gymryd camau a fydd yn arwain at ddefnydd mwy effeithlon o'r rhwydwaith.
- Gymryd camau i osgoi/cael gwared ar/lleihau tagfeydd traffig neu unrhyw beth arall sy'n amharu ar lif y traffig.

Mae'r Weledigaeth Strategol yng Nghynllun Corfforaethol a Gwella'r Cyngor yn pwysleisio hyrwyddo amgylchedd sy'n ddeniadol, yn lân ac yn iach, ac mae'r Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol yn cydnabod bod rheoli traffig yn chwarae rhan bwysig o ran sicrhau defnydd diogel, effeithiol a rhesymol o'r briffordd. Mae'r polisiau a'r arferion yn caniatáu:

- Cynnal llif y traffig.
- Rheoli'r defnydd o ymyl y ffordd ar gyfer parcio neu er mwyn gwahardd parcio.
- Rheoli galwadau defnyddwyr sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd drwy ddynodi cilfachau ar gyfer llwytho, bysiau a thacsis.
- Creu darpariaeth ddigonol ar gyfer anghenion pobl anabl.
- Rheoli'r galw.
- Gwella trafndiaeth gyhoeddus drwy annog pobl i beidio â defnyddio eu ceir.
- Gwella diogelwch defnyddwyr drwy annog pobl i beidio â pharcio'n anwahaniaethol.

2.2 **Polisi Codi tâl**

Mae'r taliadau a godir am barcio yn ystyried yr egwyddorion canlynol.

- Yr angen i annog masnach adwerthu;
- Yr angen i reoli traffig, gan gynnwys parcio ar y stryd a llif y traffig;
- Yr angen i reoli'r galw yn effeithiol;
- Natur y lleoliad parcio a'i ddefnyddwyr, h.y. siopwr trefol/busnes, preswyl, siopwr tref wledig, traeth/ymwelydd;
- Cymharu â darparwyr eraill yr ardal;
- Yr angen i annog defnyddio dulliau trafndiaeth mwy cynaliadwy, gan gynnwys trafndiaeth gyhoeddus;
- Nid yw'r codi tâl at ddibenion creu incwm yn unig.
- Ystyried darpariaeth gyffredinol y gyllideb refeniw (gwariant ac incwm) ar gyfer meysydd parcio.
- Rhagdybiaeth o blaid ariannu gwelliannau drwy gynyddu'r tariff.

Caiff yr egwyddorion hyn eu gweithredu'n gyson, sy'n arwain at wahaniaeth yn swm y tâl a godir o le i le, ac ar yr un pryd yn sicrhau nad yw'r taliadau a godir yn ffafrio un ardal mewn perthynas ag un arall.

2.3 Rheoli'r Galw:

Mae'r taliadau a godir am barcio wedi cael eu hystyried fesul tref. Mae'r taliadau a godir am barcio yn Sir Benfro wedi'u pennu er mwyn annog siopwyr (sydd angen cludo nwyddau), ac a fydd yn debygol o angen lleoedd parcio arhosiad byr. Lle mae galw mawr am barcio a/neu nifer cyfyngedig o leoedd parcio, mae'r cyfnod a'r tariff parcio yn cael eu pennu'n ofalus er mwyn optimeiddio'r trosiant. Yn gyffredinol, bydd yn ofynnol i'r rhai sy'n defnyddio lleoedd arhosiad hwy, barcio ymhellach o ganol trefi.

3.0 Darpariaeth Parcio yn Sir Benfro

3.1 Oddi ar y Stryd

Mae'r Awdurdod yn rheoli meysydd parcio sy'n cynnig darpariaeth arhosiad byr ac arhosiad hir i'r defnyddiwr. Mae'r taliadau a godir yn unol â Pholisi'r Cyngor a chawsant eu hadolygu ym mis Tachwedd 2009 gyda'r taliadau diwygiedig yn dod i rym ar 1 Ionawr 2010 a thaliadau newydd yn cael eu cyflwyno o 1 Ebrill 2010.

Gwneir darpariaeth ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr gyda lleoedd penodol ar gyfer Deiliaid Bathodyn Glas, Rhieni â Phlant, Tacsis, Defnyddwyr Bysiau, Beiciau Modur a Llwytho, lle bo hynny'n briodol.

Mae'r ddarpariaeth i bobl anabl yn unol â'r canllawiau a gyhoeddir gan yr Adran Drafnidiaeth.

Mae consesiynau ar gael ym mhob maes parcio arhosiad hir ar ffurf tocynnau Tymor sy'n cynnig gostyngiad o 40% i ddefnyddwyr rheolaidd a thocynnau wedi'u cadw sy'n cynnig gostyngiad o 20%.

3.2 Ar y Stryd

Mae'r Awdurdod yn darparu cyfleusterau parcio ar y stryd ar y briffordd gyhoeddus lle ystyrir ei bod yn briodol gwneud hynny heb ymyrru'n ormodol â'r traffig sy'n symud. Mae'n cynnig darpariaeth ar gyfer aros cyfyngedig, pobl anabl, llwytho, tacsis, beiciau modur a phreswylwyr.

Mae wedi datblygu arferion cadarn a theg i reoli ymyl y ffordd i ddarparu ar gyfer galwadau'r gwahanol ddefnyddwyr sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd. Ni weithredwyd unrhyw gyfyngiadau nad oes ganddynt orchymyn rheoleiddio traffig i'w cefnogi.

4.0 Ein Gwasanaethau

4.1 Parcio Oddi ar y Stryd

Mae'r Cyngor yn gweithredu'r rhan fwyaf o'r meysydd parcio oddi ar y stryd yn Sir Benfro, gyda rhai yn cael eu rhedeg gan Barc Cenedlaethol Arfordir Penfro, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyngor Dinas Tyddewi, Comisiwn Harbwr Saundersfoot a chydag archfarchnadoedd a chanolfannau siopa lleol yn rhedeg eu meysydd parcio eu hunain. Mae manylion holl feysydd parcio'r Cyngor sy'n codi tâl ynghyd a'u ffioedd a'r nifer o leoedd parcio i'w gweld yn Atodiad 1 ac ar wefan y cyngor www.pembrokeshire.gov.uk. Mae gan Gyngor Sir Penfro 91 maes parcio ac mae 32 ohonynt yn rhai talu ac arddangos. Mae 18 yn codi tâl drwy gydol y flwyddyn ac mae 14 yn codi tâl tymhorol rhwng 1 Ebrill a 30 Medi. Codir tâl rhwng oriau 9.00yb a 5.30yh yn y meysydd parcio sy'n codi tâl drwy gydol y flwyddyn a rhwng 9.00yb a 5.00yh yn y meysydd parcio tymhorol. Darperir rhyw 4,670 lle parcio yn y meysydd parcio sy'n codi tâl a 2,902 lle parcio yn y meysydd parcio sy'n rhad ac am ddim.

Mae consesiynau parcio ar gael ym mhob maes parcio arhosiad hir ac maent yn cynnig arbedion sylweddol i ddefnyddwyr rheolaidd. Mae tocynnau wythnosol (7 diwrnod am bris 6), tocynnau tymor (sy'n osgoi gorfod talu tâl dyddiol ond nid yw'n gwarantu lle) a lleoedd a neilltuwyd (sy'n gwarantu lle) i gyd ar gael yn amodol ar y galw ac yn cynnig cyfraddau consesiynol o 40% a 20% o ostyngiad ar y gyfradd ddyddiol gyfatebol. Gwerthwyd 105 tocyn tymor yn 2011, a chyflwynwyd 163 trwydded am le a neilltuwyd a 185 trwydded Harbwr Dinbych-y-pysgod (Nodir y lleoliadau yn Atodiad 2). Rhaid i fodurwyr anabl, sy'n arddangos bathodyn glas dyls, dalu ym mhob un o'n meysydd parcio ond maent yn derbyn awr ychwanegol o barcio yn rhad ac am ddim. Gwnaed lleoedd parcio ar gyfer deiliaid bathodynnau yn hygyrch ac yn fwy o faint yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan yr Adran Drafnidiaeth. Mae isafswm 6% o'r lleoedd parcio wedi'u neilltuo ar gyfer deiliaid bathodynnau glas. Codir tâl yn y meysydd parcio ar bob diwrnod gan gynnwys dydd Sul a Gwyliau Banc. Bu'r Cyngor yn hepgor codi tâl ar ddiwrnodau penodol ym mis Rhagfyr yn y cyfnod cyn y Nadolig ym mhob maes parcio'r Sir lle codir tâl fel arfer.

4.2 Ar y Stryd

Ers 2002, cynhaliwyd adolygiadau strategol o'r prif drefi. Roeddent i gyd yn dilyn yr un broses, sef:

- Paratoi cynigion
- Ymgynghori
- Arddangosfa
- Dadl gyhoeddus
- Adroddiad Cabinet
- Gweithredu

Rhoddyd ar waith gorchymyn cydgrynhoi newydd, Gorchymyn (Cydgrynhoi) (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) 2011 ym mis Ionawr 2011 i baratoi ar gyfer y newid i Orfodi Parcio Sifil.

Yn dilyn cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil, pan ddaeth yn glir bod cyfyngiadau bellach yn cael eu gorfodi'n effeithiol, cynhaliwyd cyfarfodydd ymgysylltu gyda gwahanol sefydliadau, gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad, Cynghorwyr a chynrychiolwyr Siambrau Masnach, i drafod pryderon a diwygiadau posibl i orchmynion rheoleiddio traffig mewn nifer o leoliadau. Cynhaliodd tîm Rheoli Traffig y Cyngor waith adolygu, ac yn dilyn ymgynghoriadau, cyflwynwyd Gorchymyn Amrywio yn Abergwaun, Hwlfordd, Arberth, Doc Penfro, Saundersfoot a Dinbych-y-pysgod.

Effaith yr amrywio oedd cynyddu nifer y lleoedd cyfyngedig ar y stryd o 1,717 i 1,835, sef cynnydd o 118. Mae'r lleoedd hyn yn cynnwys lleoedd ar gyfer modurwyr cyffredinol, deiliaid bathodynau glas, preswylwyr, tacsis, llwytho, beiciau modur ac ambiwlansys. O gyfanswm nifer y lleoedd, mae 644 lle yn weddill ar gyfer Deiliaid Trwyddedau Preswylwyr / Busnes. Mae cynnydd net o un i 101 yng nghyfanswm nifer y lleoedd ar gyfer deiliaid bathodynau glas tra bod y lleoedd ar y stryd ar gyfer cerbydau hacni wedi gostwng tri o 29 i 26. Tynnwyd yn ôl darpariaeth yn Swan Square, Hwlfordd ac ar High Street, Saundersfoot.

4.3 Parcio i Breswylwyr

Ger canol trefi, mewn ardaloedd lle mae pobl yn gweithio ac mewn cyrchfannau twristiaid, nid yw bob amser yn bosibl i breswylwyr ddod o hyd i lleoedd parcio yn agos at eu cartrefi. Gall argaeledd lleoedd o'r fath ar gyfer cymunedau, siopwyr a thwristiaid danseilio'r Strategaeth Barcio sy'n ceisio rheoli'r cyflenwad/galw a chost parcio er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r lle sydd ar gael.

Er mwyn ystyried y problemau hyn, cyflwynwyd Cynlluniau Parcio i Breswylwyr, lle bo hynny'n ymarferol, ar nifer o strydoedd/leoliadau ledled y Sir. Cyflwynwyd y cynllun cyntaf yn Castletown, Hwlfordd ym 1997 ac wedi hynny, cyflwynwyd 51 cynllun pellach. Gweithredir pob cynllun ar y briffordd gyhoeddus o dan yr un rheoliadau, un drwydded yr eiddo ar gyfer cerbyd penodol. Mae'r trwyddedau yn ddilys am gyfnod hyd at 12 mis. Mae cost y drwydded, a oedd yn wreiddiol yn £25 yn 1997, wedi codi i £35, yn unol â chwyddiant, yn 2012. Mae trwyddedau ymwelwyr ar gael am gyfnodau hyd at 7 niwrnod ac yn costio £7, eto un drwydded yr eiddo ar gyfer cerbyd penodol. Rhaid cyflwyno prawf o fod yn breswlydd, yswiriant dilys a thystysgrif MOT.

Gweithredir cynllun nid yw'n briffordd yn Harbwr Dinbych-y-pysgod lle rhoddir un drwydded i bob eiddo ac nid yw'n benodol i gerbyd. Cost y drwydded yw £100 sydd heb ei gynyddu ers 2003.

Cyflwynwyd dros 900 trwydded flynyddol yn ystod blwyddyn ariannol 2011/12 a thros 120 o drwyddedau ymwelwyr (Rhestr cynlluniau yn Atodiad 3).

4.4 Parcio Pobl Anabl

Mae Cynllun y Bathodyn Glas yn drefniant parcio cenedlaethol ar gyfer pobl ag anawsterau cerdded difrifol sy'n teithio fel gyrrwr neu deithiwr. Mae'r cynllun yn caniatáu i ddeiliad y bathodyn barcio'n agos i'w gyrchfan. Mae'r consesiynau cenedlaethol hyn yn berthnasol i barcio ar y stryd yn unig; cynghorir deiliad bathodyn i wirio arwyddion meysydd parcio i weld pa gonsesiynau allai fod yn berthnasol. Pennir consesiynau ar gyfer pobl anabl sydd am barcio ar y stryd ar lefel cenedlaethol. Maent yn eithrio'r rhai sy'n arddangos bathodyn glas dilys o derfynau amser lleoedd aros cyfyngedig ac yn caniatáu arhosiad o hyd at 3 awr ar linellau melyn dwbl neu sengl ar yr amod nad yw'n achosi rhwystr na pherygl i ddefnyddwyr eraill y ffordd ac nad oes gwaharddiad llwytho ar waith. Nid yw'n caniatáu parcio mewn lleoedd a neilltuwyd ar gyfer defnyddwyr eraill, e.e. preswylwyr, tacsis, safle bws, cerbyd nwyddau neu fannau llwytho.

Mae'r Cyngor yn awyddus i barcio priodol gael ei ddarparu ym mhob lleoliad canol tref a neilltuwyd dros 100 o leoedd at y diben hwn. Gallai fod terfynau amser ar waith, a dangosir y rhain ar arwyddion fertigol, lle bo hynny'n briodol.

Cyhoeddir Bathodynau Glas gan dimau Canolfan Gyswllt a Gwasanaethau Cwsmeriaid y Cyngor ac ar hyn o bryd dosbarthir tua 10,130 o fewn y Sir. Yn dilyn adolygiad cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru, bydd pob bathodyn yn cael ei gyhoeddi gan Northgate o fis Ebrill 2012 ymlaen.

4.5 Gollyngiadau Parcio

Mae'r gorchmynion Rheoleiddio Traffig presennol yn cynnwys eithriadau sy'n caniatáu i gerbyd modur aros ar ddarn o'r ffordd cyhyd ag y bo'n angenrheidiol i alluogi -

- person i fynd mewn i, neu ddod allan o gerbyd modur;
- llwytho nwyddau i, neu ddadlwytho nwyddau o gerbyd modur;
- cerbyd modur gael ei ddefnyddio mewn perthynas ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol sef:-
 - (i) gwaith adeiladu neu waith dymchwel ar y darn o'r ffordd neu'n gyfagos iddo;
 - (ii) cael gwared ar unrhyw rwystr i draffig ar y darn o'r ffordd;
 - (iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu'r darn o'r ffordd; neu
 - (iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, pibell neu gyfarpar cyflenwi nwy, dŵr neu drydan, neu gyfarpar telathrebu ar dir y darn o'r ffordd neu dir cyfagos.
- cerbyd modur a ddefnyddir at wasanaeth yr awdurdod lleol mewn perthynas â phwerau neu ddyletswyddau statudol.
- cerbyd modur a ddefnyddir at ddiben dosbarthu neu gasglu pecynnau post.
- cerbyd modur mewn cysylltiad ag unrhyw briodas neu angladd.
- cerbyd modur a ddefnyddir at ddibenion gwasanaethau tân, ambiwlans neu'r heddlu.

Gall cerbyd person anabl sy'n arddangos bathodyn glas a disg parcio aros ar y darn o'r ffordd am gyfnod heb fod yn hwy na thair awr.

Yn ogystal, bydd y Cyngor, o dan rai amgylchiadau, yn caniatáu i gerbyd barcio'n gyfreithlon yn groes i Orchymyn Rheoleiddio Traffig drwy gyflwyno gollyngiad. Gall y Cyngor hefyd wahardd dros dro lleoedd parcio at ddibenion cadw'r lleoedd hynny ar gyfer cerbydau a/neu ymgeiswyr penodol.

Awdurdodir gan Reoliadau (Ffioedd Trafnidiaeth) Awdurdodau Lleol 1998 codi tâl am y gwasanaeth hwn ond cyfyngir tâl o'r fath i'r gost o ddelio â'r mater ac ni all gynnwys unrhyw gost ychwanegol am unrhyw golled bosibl mewn incwm. Mae gollyngiad yn awdurdodi cerbyd (neu gerbydau) i barcio yn groes i Orchymyn Rheoleiddio Traffig. Nid yw'n caniatáu parcio cyffredinol ac nid yw'n caniatáu i'r cerbyd aros yn yr ardal gyfyngedig/gwaharddedig unwaith y bydd diben y gollyngiad wedi'i gyflawni.

Yn amodol ar gadarnhad gan y Cyngor, gellir cyflwyno gollyngiadau ar gyfer:

- Symud Dodrefn
- Gwaith cynnal a chadw/atgyweirio adeiladu,
- Dosbarthu nwyddau pan fo'n rhesymol caniatáu mwy o amser na'r hyn a ganiateir fel arfer gan y Rheoliadau,
- Hers a cherbydau'r prif alarwyr mewn Angladd,
- Cerbydau priodasol mewn priodas,
- Cerbydau sy'n hanfodol i weithrediadau ffilmio,
- Amgylchiadau eraill y mae'r Cyngor yn ystyried eu bod yn hanfodol.

Yn gyffredinol, ni chyflwynir gollyngiadau am y canlynol ond gellir eu cyflwyno o dan amgylchiadau eithriadol:

- Ceisiadau lle gall parcio gael effaith andwyol ar leoedd parcio pobl anabl/meddygon/tacsis neu safleoedd bysiau,
- Ceisiadau lle mae cyfyngiadau llwytho ar waith,
- Lleoliadau o fewn 50 metr i gyffordd a reolir gan signalau,
- Lleoliadau o fewn marciau croesfan i gerddwyr,
- Lleoliadau lle darperir marciau 'Cadwch yn Glir', lle gall parcio achosi perygl i ddefnyddwyr y ffordd ac i gerddwyr,
- Lleoliadau lle gall rhwystr ddigwydd neu lle bydd rhwystr llif y traffig,
- Ceisiadau lle mae amheuan ynghylch dilysrwydd y cais.

Mae gweithdrefn gweinyddu wedi'i rhoi ar waith i dderbyn ceisiadau a wnaed drwy'r post, dros y ffôn, drwy ffacs neu mewn person, ond i fod yn ysgrifenedig. Rhaid bod ceisiadau wedi'u derbyn o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y dyddiad gofynnol er mwyn galluogi swyddogion y Cyngor i archwilio'r safle cyn cymeradwyo'r cais. Mae gan swyddogion yr hawl i ddelio â cheisiadau mwy brys os yw'n rhesymol gwneud hynny. Codir tâl gweinyddu am bob gollyngiad ac eithrio mewn perthynas â phriodasau ac angladdau. Pennwyd cost o £15 am gais a £10 am bob cyfnod 7 diwrnod.

Cyflwynir gollyngiadau ar ffurf trwydded dros dro sy'n cynnwys manylion y digwyddiad, rhif y cerbyd, dyddiad ac amser ei defnyddio. Rhaid arddangos y drwydded yn glir ar sgrin wynt flaen y cerbyd cymeradwy.

Cyflwynwyd 123 gollyngiad hyd at 31 Mawrth 2012.

4.6 Gofalwyr

Mae Gorchmynion Rheoleiddio Traffig yn cynnwys eithriadau ar gyfer ymarferwyr meddygol cymwysedig yn ôl diffiniad Adran 2 Deddf Feddygol 1938, nyrsys cymunedol neu filfeddygon cofrestredig tra eu bod yn ymweld ag adeiladau sy'n gyfagos i le parcio.

Dynodir lle parcio ar y briffordd gan farciau ysbeidiol gwyn neu felyn ynghyd ag arwydd sy'n dangos y defnyddwyr a ganiateir, a all fod yn breswlydd, person anabl, tacsï, yr heddlu, ambiwlans neu'n llwytho. Rhaid arddangos hysbysiad wedi'i eirio'n briodol i ddynodi bod y cerbyd "ar alwad". Nid oes eithriad i unrhyw staff meddygol barcio mewn lleoliadau lle mae gwaharddiadau aros a llwytho. Caiff y rhain eu dynodi gan linellau melyn sengl neu ddwbl.

Nid oes eithriad yn y Gorchmynion ar gyfer Gofalwyr neu Staff Asiantaethau Gofal pan fyddant yn ymweld â'u perthnasau neu'n ymweld â chleientiaid yn eu cartrefi eu hunain. Ar ôl rhoi Gorfodi Parcio Sifil ar waith, codwyd pryderon ynghylch ymdrin â gofalwyr gan Angela Burns AC a Mrs Annie Bradshaw, ac yn dilyn hynny, cynhaliwyd trafodaeth ar effaith Gorfodi Parcio Sifil ar Ddarparwyr Gofal. Trefnwyd wedyn y byddai rhywfaint o gonsesiwn i Ofalwyr. Dylent barcio rhywle diogel a chyfreithlon, lle bo hynny'n ymarferol, ond pan na fyddai hyn yn bosibl, gallent barcio mewn lleoliadau na chaniateir fel arfer, yn debyg i staff meddygol. Bydd ein Swyddogion Gorfodi yn dal i batrolio a gallant gyflwyno hysbysiad tâl cosb; byddai hyn yn cael ei ganslo ar apêl os bydd y cyflogwr yn cadarnhau yr oedd y gofalwr ar ddyletswydd swyddogol yn y safle adeg y tramgwyddo.

Mae'r Rheolwr Gwasanaethau Parcio wedi cymharu'r arfer hwn ag awdurdodau eraill yng Nghymru sy'n gweithredu Gorfodi Parcio Sifil er mwyn canfod sut y maen nhw yn ymdrin â'r mater hwn. Nid oes gan yr un ohonynt eithriad i ofalwyr yn eu gorchmynion rheoleiddio traffig ond mae nifer fach yn cynnig consesiynau sy'n debyg i'r arfer a amlinellwyd uchod. Bydd y sefyllfa yn cael ei monitro.

5.0 Cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil

5.1 Y Broses o gyflwyno Gorfodi Parcio Sifil

Cam cyntaf cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil oedd adolygiad codi taliadau am Feysydd Parcio, a gwblhawyd ym mis Ebrill 2010. Cytunwyd ar daliadau parcio newydd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2009 a chyflwynwyd y rhain yn llawn erbyn 1 Ebrill 2010. Comisiynwyd adroddiad Astudiaeth Parcio yn Sir Benfro gan yr awdurdod hwn i gynnal adolygiad o'r systemau rheoli a'r polisi presennol ynghyd â'r gweithgarwch economaidd y maent yn eu cynnal, a bu hyn yn cydnabod rhinwedd mabwysiadu Gorfodi Parcio Sifil. Cadarnhaodd yr adroddiad y byddai cyfuno'r gwaith rheoli a gorfodi parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd yn cynnig manteision gweithredol a chymunedol sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cydgysylltu'r gwaith gorfodi a rheoli parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd
- Defnydd uwch o feysydd parcio oddi ar y stryd
- Gweithredu polisïau parcio'n fwy effeithiol
- Gwell amodau amgylcheddol
- Gwell llif traffig
- Gwell rheolaeth dros y galw am barcio
- Cynnydd mewn refeniw (gan y bydd y Cyngor yn cadw pob taliad dirwy a chosb) y gellir ei ddefnyddio i ariannu costau gorfodi a dyfarnu, gydag unrhyw arian sy'n weddill yn cael ei neilltuo o dan Adran 55 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ar gyfer gwelliannau parcio, trafnidiaeth gyhoeddus a chynnal a chadw'r priffyrdd.

Yn sgil cyflwyno taliadau parcio newydd, gwnaed gwaith datblygu sylweddol, a chyflwynwyd cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Medi i weithredu Gorfodi Parcio Sifil o 1 Chwefror 2011. Parhaodd y gwaith hyd at 1 Chwefror, gyda'r timau Gwasanaethau Parcio a Rheoli Traffig yn paratoi gorchmynion traffig, yn penodi ac yn hyfforddi staff ac yn cynghori'r cyhoedd am y newidiadau y byddai Gorfodi Parcio Sifil yn eu cyflwyno.

5.2 Gweithredu Gorfodi Parcio Sifil

Darperir y gwaith gorfodi parcio gan dîm mewnol.

Swyddogion Gorfodi Sifil yw wyneb cyhoeddus gorfodi parcio sifil ac y mae'r modd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau yn hanfodol i lwyddiant a chanfyddiad y cyhoedd o weithrediad Gorfodi Parcio Sifil y Cyngor. Disgwylir i Swyddogion Gorfodi Sifil gyflawni eu dyletswyddau mewn modd proffesiynol ac effeithlon bob amser. Dylent weithredu mewn modd cyson, cadarn, sensitif a diplomataidd, a defnyddio eu synnwyr cyffredin a'u hamynedd, a gallu meddwl yn glir ac ymateb yn synhwyrol o dan bwysau.

Mae gweithredu gorfodi parcio sifil yn llwyddiannus yn dibynnu ar ymroddiad ac ansawdd y staff sy'n ei ddarparu. Mae'n hanfodol bod gan y staff ar bob lefel y sgiliau a'r hyfforddiant i wneud eu gwaith yn effeithiol er mwyn i'r Cyngor allu ennyn hyder a pharch y cyhoedd. I gydnabod hyn, ystyriwyd bod hyfforddiant yn agwedd ddilys a phwysig ar gostau rhedeg gorfodi parcio sifil.

Prif nod Swyddog Gorfodi Parcio yw sicrhau bod rheolaethau parcio yn cael eu gweithredu a'u gorfodi mewn modd teg, cywir a chyson.

Mae dyletswyddau Swyddogion Gorfodi Sifil hefyd yn cynnwys gweithgareddau cysylltiedig megis:

- archwilio offer parcio;
- archwilio bathodynau parcio person anabl;
- gwirio ac adrodd am arwyddion a marciau ffordd diffygiol;
- cyflwyno taflenni gwybodaeth neu hysbysiadau rhybudd;

- darparu datganiadau tystion; a
- lle bo'n briodol, ymddangos gerbron dyfarnwr parcio;
- hysbysu'r heddlu am weithgarwch parcio troseddol;
- adrodd am gerbydau yr amheuir eu bod yn adawedig;
- adrodd i'r DVLA am gerbydau nad oes ganddynt ddisg treth dilyn;
- gosod a thynnu hysbysiadau ynghylch atal lle parcio;
- adrodd ar newidiadau i batrymau parcio; a
- chynorthwyo gydag arolygon gorfodi ar y stryd.

Ar hyn o bryd mae Sir Benfro yn cyflogi 12 Swyddog Gorfodi Sifil a Swyddog Parcio sy'n goruchwyllo eu gweithgareddau. Nid ydynt yn derbyn unrhyw fonws na chymhelliant sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Ni phennir unrhyw dargedau o ran nifer yr hysbysiadau tâl cosb a gyflwynir. Bu'r trosiant staff yn isel iawn hyd yma, gyda dim ond un o'n staff gwreiddiol yn gadael yn ystod y cyfnod ac mae'r profiad a ddaw yn sgil hyn yn helpu sicrhau cysondeb yn ein gwaith gorfodi. Mae pob Swyddog Gorfodi Sifil wedi pasio cymhwyster Lefel 2 City and Guilds mewn Gorfodi Parcio, cymhwyster ffurfiol a gydnabyddir gan Gymdeithas Parcio Prydain a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal mae'r swyddogion yn derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf, gwasanaethau i gwsmeriaid, ymwybyddiaeth anabledd, sut i ymdrin ag ymddygiad ymosodol a hyfforddiant chodi a chario. Mae pob Swyddog Gorfodi Sifil wedi cael gwiriad y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Yn anffodus, yn aml mae'r Swyddogion Gorfodi Sifil yn destunau cam-drin geiriol ac weithiau maent yn dioddef ymosodiad corfforol wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae hyn yn annerbyniol a bydd y Cyngor Sir bob amser yn cefnogi swyddogion i hysbysu'r Heddlu am ddigwyddiadau o'r fath. Er mwyn diogelu staff, mae ganddynt rifau adnabod ochr yn ochr â'u bathodyn adnabod ffotograffig, y byddant yn eu dangos i'r cyhoedd os gofynnir amdanynt; does dim rhaid iddynt roi eu henwau.

Cyflwynir hysbysiadau tâl cosb i gerbydau sy'n parcio yn groes i'r cyfyngiadau. Gwneir hyn drwy fewnbynnu'r wybodaeth berthnasol i gyfrifiadur llaw ac atodi'r Hysbysiad Tâl Cosb a argraffwyd i'r cerbyd neu drwy ei roi i'r gyrrwr neu bwy bynnag sy'n ymddangos fel pe bai'n gyfrifol amdano. Cymerir tystiolaeth ffotograffig i gynorthwyo cyflwyno'r HTC drwy ddefnyddio camera o fewn y cyfrifiadur llaw. Cofnodir yr holl wybodaeth berthnasol mewn llyfr nodiadau. Mae'n bosibl y bydd angen yr holl wybodaeth hon wrth ystyried heriau ac apeliadau. Unwaith mae'r HTC wedi'i gyflwyno, ni all y Swyddog Gorfodi Parcio ei ganslo na'i dynnu'n ôl. Mae hyn er mwyn eu gwarchod rhag honiadau o anghysondeb, ffafriaeth, neu amheuaeth o lwgrwobrwyo. Os bydd modurwr yn dymuno herio HTC rhaid iddynt ddilyn y broses apelio a nodir ar gefn y HTC.

Mae'r Cyngor yn defnyddio ei Swyddogion Gorfodi Parcio mewn modd sy'n sicrhau cwmpasu'r holl gyfyngiadau parcio a meysydd parcio ledled y sir. Fodd bynnag, blaenoriaethir yr ardaloedd hynny sydd â'r rhan fwyaf o'r problemau parcio. Ein blaenoriaethau bu gorfodi cyfyngiadau fel y bwriadwyd iddynt fod pan gawsant eu cyflwyno. Rhoddir sylw arbennig i leoedd parcio ar

gyfer pobl anabl a phreswylwyr, lleoedd amser cyfyngedig yng nghanol trefi a ger ysgolion lle mae cyfyngiadau ar waith.

Ers cychwyn Gorfodi Parcio Sifil, mae staff Gwasanaethau Parcio wedi meithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o ble a phryd y mae parcio anwahaniaethol yn digwydd. Fodd bynnag, pan fo aelodau o'r cyhoedd yn cael problemau parcio penodol gallant roi gwybod amdanynt i staff y swyddfa sydd bob amser ar gael i helpu. Mae gan ein gwefan nodwedd Problemau Parcio lle gall y cyhoedd e-bostio manylion problem.

Cynorthwyr y Swyddogion Gorfodi Parcio gan dri staff swyddfa, Rheolwr Gwasanaethau Parcio a dau Swyddog Parcio. Maent yn gyfrifol am reoli'r holl feysydd parcio, peiriannau Talu ac Arddangos, materion ariannol, Trwyddedau Preswylwyr, Trwyddedau Tymor a Thrwyddedau Neilltuo lle Meysydd Parcio, Gollyngiadau Parcio a Thrwyddedau Meysydd Parcio. Maent hefyd yn darparu cymorth i Bartneriaeth Prosesu Cosbau Cymru sy'n ymgymryd â'r gwaith cefn swyddfa o weinyddu Hysbysiadau Tâl Cosb ar ein rhan.

5.3 Y Swyddfa Gefn - Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru (WPPP)

Wrth gynllunio cyflwyno Gorfodi Parcio Sifil, daeth i'r amlwg bod angen proses gynhwysfawr ar gyfer delio gyda'r HTC a gyflwynwyd – y "swyddfa gefn". Penderfynwyd ymuno â Phartneriaeth Prosesu Cosbau Cymru, a oedd eisoes wedi'i sefydlu pan ymunodd Sir Benfro ym mis Chwefror 2011. Fe'i cynhelir gan Gyngor Sir Dinbych a'r aelodau eraill yw Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Ymunodd Cyngor Sir Powys ym mis Ebrill 2011 a bydd Ceredigion yn ymuno ym mis Mehefin 2012. Ymunwyd â'r Bartneriaeth i fanteisio ar:

- Arbedion Maint wrth brosesu HTC;
- Costau cyffredinol is trwy ganoli staff a swyddfeydd;
- Cynyddu pŵer prynu trwy gaffael ar y cyd meddalwedd a chymorth ar gyfer prosesu hysbysiadau;
- Gweithredu arferion yn gyson mewn perthynas â gorfodi parcio ledled Cymru; Y Gogledd, Y Canolbarth a'r Gorllewin.
- Gweithredu systemau, a throsglwyddo gwybodaeth yn well mewn perthynas â swyddogaethau gorfodi;
- Cynnydd mewn cynhyrchiant a pherfformiad staff.


Yn ogystal â'r manteision cychwynnol, sefydlwyd gweithgor swyddogion gyda chynrychiolwyr o bob Awdurdod Partner sy'n cyfarfod bob chwarter i drafod cysondeb gweithredol a rhannu arfer gorau ac sy'n ymdrechu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd parhaus ond nid ar draul darparu gwasanaeth proffesiynol o safon i'r cyhoedd.

5.4 Siart yn crynhoi'r broses Gorfodi Parcio Sifil

Mae'r siart isod yn crynhoi ac yn esbonio'r broses gorfodi a'r broses gefn swyddfa.

Commented [Author1]: In one of the penultimate boxes in the bottom-right of the following diagram, the box reads 'Action 2'.

Please change to:
'Gweithred 2'



6.0 Heriau, Sylwadau ac Apeliadau

6.1 Y Broses Herio

Staff Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru sy'n delio â phob gohebiaeth mewn perthynas â HTC o'u swyddfeydd ym Modelwyddan, y Rhyl. Bu'r swyddogion hyn yn delio â 55,000 HTC a 39,000 eitem gohebiaeth yn 2011/12. Maent yn ymateb i dros 90% o'u gohebiaeth ar y diwrnod y maent yn eu derbyn. Mae swyddogion ein Hadrann Gwasanaethau Parcio mewn cysylltiad rheolaidd â'u cydweithwyr yng Ngogledd Cymru yn darparu cyngor, penderfyniadau apeliadau, gwybodaeth leol a chynlluniau pan fo angen.

Pan fydd achos o dramgwydd parcio, perchennog y cerbyd dan sylw sy'n rhwymedig yn gyfreithlon i dalu'r tâl cosb. Rhaid hysbysu'r DVLA yn syth os bydd newid ym mherchnogaeth y cerbyd.

Wrth ganiatáu i bobl eraill ddefnyddio eu cerbydau, dylai perchnogion cerbydau gofio mai y nhw, perchennog y cerbyd ac nid gyrrwr y cerbyd, fydd yn atebol o hyd i dalu unrhyw daliadau cosb mewn perthynas â thramgwyddau parcio.

Yr unig eithriad i hyn yw pan fydd y cerbyd wedi'i logi o gwmni o dan gytundeb llogi ac mae'r person sy'n ei logi wedi llofnodi datganiad o atebolrwydd mewn perthynas ag unrhyw hysbysiad tâl cosb a gyflwynwyd mewn perthynas â'r cerbyd yn ystod cyfnod y cytundeb.

Gall perchnogion cerbydau herio'r HTC a dderbyniwyd wrth dri cham:

- Her anffurfiol, cyn y caiff Hysbysiad i'r Perchennog (NtO) ei gyflwyno
- Her ffurfiol neu sylwad ar ôl cyflwyno'r NtO.
- Apêl i'r Tribiwnlys Cosb Traffig yn erbyn Hysbysiad Gwrthod Sylwadau a gyflwynwyd gan y Cyngor.

Ni ellir herio ymhellach ac eithrio ar bwynt cyfreithiol drwy gais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

Mae'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno Hysbysiadau Tâl Cosb, Hysbysiad i Berchnogion, Hysbysiad Gwrthod a Thystysgrifau Tâl ynghyd â'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys ymhob un o'r dogfennau hyn bellach wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sylwadau ac Apeliadau) (Cymru) 2008, Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Hysbysiadau Tâl Cosb, Gorfodi a Dyfarnu) (Cymru) 2008 a Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) (Rhif 2) 2008.

6.2 Canslo Hysbysiadau

Fel arfer, dim ond mewn ymateb i her neu apêl y mae'n rhaid eu cyflwyno'n ysgrifenedig y bydd HTC yn cael ei ganslo. Os yw'r Cyngor yn sylweddoli bod camgymeriad wedi'i wneud, gellir canslo'r HTC ar unwaith. Mae'r rhesymau dros ganslo HTC yn perthyn i 3 chategori eang.

- Cawsant eu cyflwyno yn anghywir yn y lle cyntaf
- Y rhai lle mae tystiolaeth wedi dod i'r amlwg yn ddiweddarach bod amgylchiadau'n bodoli pan gyflwynwyd y HTC a oedd y tu hwnt i reolaeth y gyrrwr ac a oedd yn gorfodi'r gyrrwr i barcio yn y man y parciodd.
- Y rhai lle mae'r Cyngor yn fodlon, yn seiliedig ar dystiolaeth a ddarparwyd, bod amgylchiadau lliniarol digonol i gyfiawnhau canslo'r HTC er ei fod wedi'i gyflwyno'n gywir.

Nodir Rheoliadau 2008 ar ba sail y mae'n rhaid i'r Cyngor ganslo HTC pan fydd yn fodlon bod un neu fwy o'r seiliau yn berthnasol. Pan fydd cyfeiriad at seiliau o'r fath mewn apêl, bydd y Cyngor fel arfer yn ei gwneud yn ofynnol i'r person sy'n apelio gyflwyno tystiolaeth ddogfennol dderbyniol i gynnal yr apêl.

6.3 Apeliadau

Mae crynodeb o'r seiliau dros apelio yn dilyn, a rhestrir hwy ar y NtO yn ogystal:-

- Ni fu'r tramgwydd honedig yn cymryd lle;
- Nid y chi oedd perchennog y cerbyd dan sylw adeg y tramgwydd honedig;
- Cymerwyd a pharciwyd y cerbyd heb eich caniatâd;
- Rydych yn gwmni llogi cerbydau ac mae'r person a logodd y cerbyd yn derbyn atebolrwydd am unrhyw HTC a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod llogi;
- Roedd y tâl cosb yn fwy na'r swm a oedd yn daladwy o dan yr amgylchiadau;
- Bu amhriodoldeb gweithdrefnol gan y Cyngor;
- Roedd y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig yn annilys;
- Mae'r Tâl Cosb eisoes wedi'i dalu.

Yn ogystal bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw resymau cymhellol eraill a gyflwynir i gefnogi'r apêl. Bydd angen tystiolaeth ddogfennol bob amser i gefnogi rhesymau o'r fath.

Bydd pob achos yn cael ei ystyried yn unigol; mae'r swyddogion yn gweithredu mewn modd teg a chyson. Gallai fod yn briodol arfer ein pwerau dewisol i ganslo tâl cosb mewn rhai amgylchiadau e.e.

- Lle cyflwynwyd HTC mewn perthynas â pheidio ag arddangos tocyn talu ac arddangos dilys ac mae'r apelydd yn dangos tocyn dilys ar gyfer y maes parcio hwnnw adeg y tramgwydd.
- Lle'r oedd cerbyd yn cael ei ddefnyddio gan ddeiliad bathodyn glas ond nad oedd y bathodyn glas wedi'i arddangos yn gywir neu o gwbl.
- Lle'r oedd cerbyd yn cael ei ddefnyddio gan ddeiliad bathodyn glas a bu'n achos o fân dramgwyddo.

Er y gellir canslo'r tâl cosb, ni fyddai arfer disgresiwn eto o reidrwydd pe bai'r un perchennog cerbyd yn derbyn HTC arall mewn amgylchiadau tebyg.

Pan fo sylw ffurfiol wedi'i wrthod gan y Cyngor, mae gan yr apelydd yr hawl i apelio, o fewn 28 diwrnod o ddyddiad yr Hysbysiad Gwrthod, i ddyfarnwr y Tribiwnlys Cosbau Traffig.

6.4 Tribiwnlys Cosbau Traffig

Mae'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn gorff annibynnol y mae ei Ddyfarnwyr annibynnol yn ystyried apeliadau gan fodurwyr a pherchnogion cerbydau y mae eu cerbydau wedi derbyn Hysbysiad Tâl Cosb (HTC) gan Gyngor sy'n gorfodi tramgwyddau o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

Os bydd y Tribiwnlys Cosbau Traffig yn derbyn apêl, caiff ei ystyried gan ddyfarnwr annibynnol. Caiff pob achos ei ystyried yn ôl ei deilyngdod. Unwaith y bydd y Dyfarnwr yn gwneud penderfyniad, mae'n gyfreithiol rwympol i'r Cyngor ac i'r Apelydd.

Gallai'r Dyfarnwr ddelio gydag apeliadau drwy ystyried tystiolaeth ysgrifenedig; drwy wrandawiadau ffôn sy'n cynnwys y ddau barti a thrwy wrandawiadau personol a gynhelir mewn lleoliad sy'n gyfleus i'r ddau barti.

Os penderfyniad y dyfarnwr yw y dylid derbyn yr apêl yna bydd yr Hysbysiad Tâl Cosb yn cael ei ganslo gan y Cyngor. Fodd bynnag, os gwrthodir yr apêl yna bydd rhaid talu'r Hysbysiad Tâl Cosb.

Cewch fwy o wybodaeth ar wefan y Tribiwnlys Cosbau Traffig neu wefan PATROL (Parking And Traffic Regulations Outside London) am unrhyw agwedd ar y broses apelio. Ewch i www.trafficpenaltytribunal.gov.uk neu www.patrol-uk.info am fanylion pellach.

Yn y cyfnod rhwng 1 Chwefror 2011 a 31 Mawrth 2012, cyfeiriwyd 57 achos i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig. O'r achosion hyn, ystyriwyd 14 gan wrandawriad ffôn, 5 gan wrandawriad personol a 38 drwy'r post; erys dau achos i gael eu hystyried. Caniatwyd 13 apêl, gwrthodwyd neu tynnwyd 28, a bu 14 heb eu herio gan yr Awdurdod. Ceir rhestr yr apeliadau yn Atodiad 4.

6.5 Taliadau Cosb

Cytunodd y Cyngor mai £70 dylai fod lefel uwch y tâl cosb a £50 dylai fod lefel is y tâl cosb. Mae'r taliadau hyn yn berthnasol i dramgwyddau mewn lleoedd parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd.

Ceir disgownt o 50% ar daliadau'r gwahanol lefelau am dalu'n gynnar o fewn 14 diwrnod o ddyddiad cyflwyno'r HTC.

Pan fydd herio o fewn y cyfnod disgownt 14 diwrnod, bydd y gyfradd ddisgowntio 50% yn cael ei hymestyn pe bai'r her yn cael ei gwrthod. Pan na fydd tâl cosb wedi'i dalu ac mae Tystysgrif Tâl wedi'i chyflwyno, bydd cynnydd o 50% yn y gosb i £105 a £75.

Mae'r dystysgrif yn hysbysu perchennog y cerbyd fod y tâl cosb wedi'i gynyddu gan y swm statudol, ac os na chaiff ei dalu o fewn 14 diwrnod, y gall y Cyngor wneud cais i'r Ganolfan Gorfodi Traffig (TEC) yn Llys Sirol Northampton i gofrestru'r Dystysgrif Tâl ac adennill y taliadau fel pe bai'n daladwy o dan orchymyn llys sirol.

Ar ôl ei chofrestru, bydd y TEC yn anfon awdurdod i'r Cyngor gyflwyno gorchymyn ar gyfer adennill y swm sy'n ddyledus (y tâl cosb sydd heb ei dalu, unrhyw gostau a dyfarnwyd yn erbyn y modurwr gan ddyfarnwr, ynghyd â'r ffi gofrestru (£7 ar hyn o bryd)). Rhaid i'r Cyngor wedyn anfon gorchymyn yn hysbysu'r modurwr bod rhaid iddynt o fewn 21 diwrnod arall o dderbyn y gorchymyn, naill ai dalu'r swm sy'n ddyledus neu anfon Datganiad Tyst i'r TEC i wrthbrofi'r angen i dalu'r tâl cosb (bydd y gorchymyn yn datgan ar ba seiliau y gellir gwneud Datganiad Tyst).

6.6 Beiliaid

Os yw'r modurwr yn methu â naill ai dalu'r swm sy'n ddyledus neu gyflwyno Datganiad Tyst, gall y Cyngor ofyn i'r TEC am awdurdod i baratoi Gwarant i Weithredu. Mae hyn yn awdurdodi beili ardystiedig i atafaelu a gwerthu nwyddau sy'n perthyn i'r modurwr at werth y swm sy'n ddyledus ynghyd â chost gweithredu'r Warrant.

Byddai'r Cyngor yn pwysleisio y byddai'n well ganddo weld materion yn cael eu setlo mor gynnar â phosibl (naill ai drwy dalu'r gosb tâl neu drwy apel lwyddiannus yn ei erbyn), yn hytrach na gorfod troi at ddefnyddio'r pwerau hyn.

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn defnyddio gwasanaethau tri chwmni beiliaid i adennill dyledion, sef Excel, Proserve ac A J Enforcement. Mae gan bob un ohonynt brofiad sylweddol yn y gwaith hwn ac maent yn darparu gwasanaethau tebyg i gynghorau eraill Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru a hefyd i'n partneriaid SWWITCH: Cyngor Sir Gâr, Cyngor Dinas a Sir Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Yng nghyfnod yr adroddiad hwn, cyfeiriwyd 393 o achosion at feiliaid.

7.0 Cyflawni Perfformiad ac Ystadegau

7.1 Perfformiad Ystadegol

Mae'r tablau isod yn dangos ystadegau mewn perthynas â HTC a gyflwynwyd yn y cyfnod rhwng 1 Chwefror 2011 a 31 Mawrth 2012.

7.2 Tramgwyddau Parcio ar y Stryd

Lefel Uwch

Côd	Disgrifiad	Nifer y HTC a gyflwynwyd	%
01	Parcio mewn stryd gyfyngedig yn ystod oriau penodedig	3,452	23.47
02	Parcio neu lwytho/dadlwytho mewn stryd gyfyngedig lle mae cyfyngiadau aros a llwytho/dadlwytho mewn grym	147	1
12	Parcio mewn lle parcio preswylwyr, neu mewn man parcio lle caiff y defnydd ei rannu, heb arddangos yn glir drwydded ar gyfer y lle hwnnw	2,107	14.33
16	Parcio mewn lle sydd angen trwydded heb arddangos trwydded ddilys	130	0.88
18	Defnyddio cerbyd mewn lle parcio mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau, neu gynnig neu arddangos nwyddau i'w gwerthu pan waherddir hynny	2	0.01
20	Parcio mewn bwlch llwytho wedi'i farcio gan linell felen	2	0.01
21	Parcio mewn cilfach/le neu ran o gilfach/le a waharddwyd	36	0.24
23	Parcio mewn lle parcio na ddynodwyd ar gyfer y dosbarth hwnnw o gerbyd	1,170	7.95
25	Parcio mewn man llwytho yn ystod oriau cyfyngedig heb lwytho	568	3.86
27	Parcio ger troedffordd wedi ei gostwng i lefel y gerbyttffordd	104	0.71
40	Parcio mewn lle parcio wedi ei ddynodi ar gyfer person anabl heb arddangos bathodyn person anabl dilys yn glir	677	4.60
45	Parcio ar safle taccis	210	1.43
47	Stopio ar safle/arhosfan bws cyfyngedig	164	1.12
48	Stopio mewn ardal gyfyngedig y tu allan i ysgol	8	0.05
49	Parcio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar lwybr beicio	5	0.03
62	Parcio gydag un neu fwy nag un olwyn ar unrhyw ddarn o'r ffordd ac eithrio rhwng dwy gerbyttffordd	15	0.10
99	Wedi stopio ar groesfan i gerddwyr neu mewn ardal wedi'i marcio â llinellau igam-ogam.	26	0.18

Lefel Is

Côd	Disgrifiad	Nifer y HTC a gyflwynwyd	%
05	Parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben	1	0.1
06	Parcio heb arddangos tocyn talu ac arddangos neu daleb ddilys yn glir	1	0.01
11	Parcio heb dalu'r tâl parcio	2	0.01
19	Parcio mewn lle parcio preswylwyr neu le lle caiff y defnydd ei rannu gan arddangos trwydded annilys	5	0.03
22	Ail parcio yn yr un lle parcio oddi fewn awr ar ôl gadael	2	0.01
24	Heb parcio'n gywir oddi fewn i farciau'r gilfach neu'r lle parcio	5	0.03
30	Parcio yn hirach nag a ganiateir	1,546	10.51
35	Parcio mewn lle parcio disg heb arddangos disg dilys yn glir	1	0.01

7.3 Tramgwyddau Parcio Oddi ar y Stryd

Lefel Uwch

Côd	Disgrifiad	Nifer y HTC a gyflwynwyd	%
70	Parcio mewn ardal llwytho yn ystod oriau cyfyngedig	1	0.01
74	Defnyddio cerbyd mewn lle parcio mewn cysylltiad â gwerthu nwyddau, neu gynnig neu arddangos nwyddau i'w gwerthu pan waherddir hynny	10	0.07
81	Parcio mewn ardal gyfyngedig mewn maes parcio	28	0.19
85	Parcio mewn man trwydded heb arddangos trwydded ddilys	371	2.52
87	Parcio mewn lle parcio ar gyfer person anabl heb arddangos bathodyn person anabl dilys yn glir	252	1.71
91	Parcio mewn maes parcio neu ardal na ddynodwyd ar gyfer y dosbarth hwnnw o gerbyd	11	0.07
92	Parcio gan achosi rhwystr	1	0.01

Lefel Is

Côd	Disgrifiad	Nifer y HTC a gyflwynwyd	%
73	Parcio heb dalu'r tâl parcio	81	0.55
80	Parcio'n hirach nag a ganiateir	65	0.44
82	Parcio ar ôl i'r amser y talwyd amdano ddod i ben	843	5.73
83	Parcio mewn maes parcio heb arddangos tocyn talu ac		

	arddangos neu daleb ddilys yn glir	2,486	16.90
86	Parcio y tu hwnt i farciau'r man parcio	103	0.70
95	Parcio mewn lle parcio am bwrpas gwahanol i'r hyn sydd wedi ei ddynodi ar gyfer y lle parcio hynny	31	0.21

7.4 HTC – Cynnydd Achosion

Cyfanswm Nifer y HTC a gyflwynwyd

	Nifer y HTC a gyflwynwyd	%
Cyfanswm Nifer y HTC a gyflwynwyd	14,708	100%
Nifer y HTC a gyflwynwyd ar y stryd	10,457	71.1
Nifer y HTC a gyflwynwyd oddi ar y stryd	4,251	28.9
Nifer y HTC a dalwyd ar gyfradd ddisgowntio	10,062	68.41
Nifer y HTC a dalwyd ar ôl 14 diwrnod	1,097	7.46
Nifer y HTC a dalwyd ar ôl cyflwyno tystysgrif tâl	428	2.91
Nifer y HTC heb eu talu neu a ganslwyd (gweler y manylion isod)	3,121	21.22
	14,708	100%

Manylion y HTC heb eu talu neu a ganslwyd

	Nifer y HTC a gyflwynwyd	%
Nifer y HTC a ganslwyd o ganlyniad sylwadau ffurfiol	1,532	10.42
Bathodyn Glas	445	
Cerbyd Tramor	151	
Derbyniwyd yr Her	910	
Adjudication	26	
Nifer y HTC a ganslwyd am resymau eraill (e.e. methu â dod o hyd i'r perchennog, gwall y Swyddog Gorfodi Sifil, DVLA yn methu â darparu manylion) 391 + 185	576	3.92
Nifer y HTC a ddilëwyd (ymadawedig, datodiad)	7	0.05
Nifer y HTC heb eu talu eto neu a ganslwyd (Hysbysiad i'r Perchennog (NtO), wedi'i gofrestru cyn y ddyled, Tystysgrif Tâl neu Warant wedi'i gweithredu)	999	6.79
Yn aros am Ddyfarniad	7	.05
	3,121	21.22

Commented [Author2]: For the Welsh translation, I recommend 'dyfarniad'

7.5 HTC a Gyflwynwyd 2011/2012 – fesul lleoliad

7.6 HTC a gyflwynwyd fesul lleoliad

Ar y Stryd

	HTC	%
The Esplanade, Dinbych-y-pysgod	925	6.29
High Street, Hwlfordd	790	5.37
Main Street, Penfro	361	2.45
St Florence Parade, Dinbych-y-pysgod	357	2.43
St James Street, Arberth	305	2.07
Picton Place, Hwlfordd	257	1.75
High Street, Arberth	235	1.60
The Croft, Dinbych-y-pysgod	221	1.50
South Parade, Dinbych-y-pysgod	193	1.31
Victoria Place, Hwlfordd	183	1.24

Oddi ar y Stryd

	Nifer y lleoedd	HTC	%
Maes Parcio Aml-lawr Dinbych-y-pysgod	721	738	5.02
Maes Parcio Gordon Street, Doc Penfro	269	462	3.14
Maes Parcio Perrots Road, Hwlfordd	153	398	2.71
Maes Parcio Aml-lawr Riverside, Hwlfordd	425	326	2.22
Maes Parcio Parc y Shwt, Abergwaun	79	294	2.00
Maes Parcio St Thomas Green, Hwlfordd	180	139	0.95
Maes Parcio Castle Lake, Hwlfordd	164	133	0.90
Maes Parcio West Street, Abergwaun	130	125	0.85
Maes Parcio Townsmoor, Arberth	212	119	0.81
Maes Parcio Bridgend Square, Hwlfordd	51	113	0.77

8.0 Gwybodaeth Ariannol

8.1 Cyfrif Ariannol

Cyflwynir isod data ariannol incwm a gwariant a lywodraethir gan Adran 55 o Ddeddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984.

CRYNODEB ARIANNOL

<u>Incwm</u>	2010/11 (£)			2011/12
	Blwyddyn Lawn	Pro-Rata		
Trwyddedau Parcio Preswylwyr	25,564	4,261	2 fis a orfodwyd O fis Chwe yn unig	28,333
Gollyngiadau Parcio	195	195	O fis Chwe yn unig	4,467
Taliadau Cosb	61,296	61,296		360,505
Cyfanswm Incwm	87,055	65,752		393,305

Gwariant

Costau Gweithwyr	139,763	34,941		219,833
Adeiladau	55,675	13,919		47,735
Nwyddau a Gwasanaethau	90,405	22,601		91,610
Cymorth a Rheoli	70,990	17,748		77,598
Taliadau Eraill	550	138		0
Taliadau Cyfalaf	3,947	987		7,578
Cyfanswm Gwariant	361,329	90,332		444,353
(Gwarged) / Diffyg	274,274	24,581		51,048

Er bod y ffigurau uchod yn dangos diffyg, nid yw'r wybodaeth ariannol a ddarparwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn cynnwys y gweithgarwch oddi ar y stryd nad yw'n cael ei lywodraethu gan Ddeddf Rheoliadau Traffig Ffyrdd 1984.

9.0 Datblygiadau a Mentrau yn y dyfodol

Yn 2012/13 bydd nifer o fentrau yn cael eu hystyried, naill ai'n dilyn gweithgareddau'r llynedd a'r materion a godwyd neu yn ystyried mentrau newydd, fel a ganlyn:

- Cydweithio ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro: Mae trafodaethau wedi dechrau gyda swyddogion ynghylch paratoi Gorchymyn newydd parcio oddi ar y stryd sy'n cwmpasu eu holl feysydd parcio. Yn ogystal, trafodaethau ynghylch cydweithio mewn perthynas â gorfodi.
- Adolygiad o Barcio Preswylwyr: Cynhelir ymgynghoriad, ar y cyd â Thîm Marchnata'r Cyngor, i geisio barn ar y cynllun parcio trwyddedau preswylwyr. Bydd y casgliadau yn cael eu hadrodd i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd.
- Maes Parcio Aml-lawr Dinbych-y-pysgod: Cynhelir astudiaeth ddichonoldeb i geisio gwella golwg, mynediad, arwyddion a dyluniad y maes parcio hwn.
- Cyfnewidfa Drafnidiaeth Doc Penfro: Ceisir cyllid ar gyfer gwelliannau mawr i'r gyfnewidfa drafnidiaeth, yn seiliedig ar gynlluniau a ddatblygwyd eisoes.
- Gofalwyr: Bydd y trefniadau'n cael eu monitro.
- Adolygu taliadau meysydd parcio: Ni adolygwyd y taliadau a godir am feysydd parcio tymhorol ers 2005 nac am feysydd parcio gydol y flwyddyn ers 2010; cynhelir adolygiad o'r strwythur codi tâl presennol.
- Cyfyngiadau parcio: Adolygiadau parhaus o gyfyngiadau parcio i'w hystyried gan Reoli Traffig yn sgil arsylwadau ac arolygiadau gan Swyddogion Parcio.
- Gollyngiadau parcio: Cynhelir adolygiad o drefniadau gollyngiadau parcio yn sgil sylwadau'r cyhoedd ac arsylwadau gan Swyddogion Gorfodi Parcio.

10.0 Casgliad

Mae'r adroddiad hwn wedi cyflwyno adolygiad o:

- Bolisïau Parcio'r Cyngor
- Gyfyngiadau Parcio a phaham y mae eu hangen
- Yr angen i orfodi'r cyfyngiadau hynny
- Y dull gorfodi
- Y broses apelio ac adennill dyledion.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi'r perfformiad ariannol ac ystadegol cysylltiedig yn ystod y cyfnod rhwng 1 Chwefror 2011 a 31 Mawrth 2012. Bydd adroddiadau yn y dyfodol yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol yn unig. Darparwyd hefyd mewnwelediad i rai o'r problemau/materion y bu ein staff Gwasanaethau Parcio yn eu hwynebu yn ystod y cyfnod. Er bod y wybodaeth a ddarparwyd yn gynhwysfawr, cewch fwy o wybodaeth ar dudalennau gwe Parcio'r Cyngor neu drwy gysylltu â'r staff.

Dim ond y modurwyr hynny sy'n tramgwyddo rheoliadau parcio sy'n atebol am dalu tâl cosb. Y gobaith yw y bydd y wybodaeth a gyflwynwyd yn helpu rhai modurwyr i osgoi taliadau o'r fath ac y bydd yn cynnig y cyfle i eraill ddeall yn gliriach y gweithdrefnau cyfreithiol sydd ar waith.

Mae'r adroddiad wedi ceisio dangos dull teg a chyson o ymdrin ag apeliadau, gyda chymorth arbenigedd ein cydweithwyr ym Mhartneriaeth Prosesu Cosbau Cymru, ac mae'n amlwg bod nifer o hysbysiadau tâl cosb wedi'u canslo oherwydd amgylchiadau lliniarol. Yn ogystal, mewn achosion lle derbyniwyd yr apêl gan y Dyfarnwr, bu ein staff yn gweithredu ar unwaith i adolygu'r rhesymau ac yn cymryd camau i atal achosion rhag digwydd eto.

Atodiad 1: Manylion meysydd parcio'r Cyngor sy'n codi tâl

Atodiad 2: Parcio Oddi ar y Stryd – Lleoliad Trwyddedau

Lleoliad	Neilltuwyd	Tymhorol	Cost Unedol
Harbwr – Dinbych-y-pysgod	-	185	£5.00
Aml-lawr - Dinbych-y-pysgod	50	-	£350.00
Aml-lawr, Haf - Dinbych-y-pysgod	-	14	£170.00
Traeth y Gogledd - Dinbych-y-pysgod	4	-	£250.00
Traeth y Gogledd - Dinbych-y-pysgod	-	3	£185.00
Traeth y De - Dinbych-y-pysgod	-	9	£50.00
The Croft - Dinbych-y-pysgod	27	-	£200.00
The Green - Dinbych-y-pysgod	-	6	£140.00
Long Entry - Penfro	2	-	£250.00
South Quay - Penfro	1	-	£250.00
The Common - Penfro	2	-	£125.00
The Common - Penfro	-	1	£95.00
Castle Lake - Hwlfordd	9	-	£325.00
Castle Lake - Hwlfordd	-	2	£245.00
Perrots Road - Hwlfordd	5	-	£150.00
Riverside - Hwlfordd	6	-	£325.00
Riverside Market - Hwlfordd	23	-	£312.00
Scotchwell - Hwlfordd	6	-	£200.00
Scotchwell - Hwlfordd	-	1	£150.00
High Street - Llandudoch	2	-	£140.00
Marine Road - Aberllydan	-	5	£50.00
Dale	-	26	£50.00
Parc Y Shwt - Abergwaun	1	-	£188.00
Parc Y Shwt - Abergwaun	-	5	£140.00
West Street - Abergwaun	4	-	£63.00
West Street - Abergwaun	-	13	£47.00
Townsmoor - Arberth	-	4	£188.00
Niwgwl	-	11	£50.00
Long Street - Trefdraeth	8	-	£125.00
Long Street - Trefdraeth	-	2	£94.00
Lower Charles Street - Aberdaugleddau	2	-	£200.00
Lower Charles Street - Aberdaugleddau	-	1	£150.00
Merrivale - Tyddewi	-	2	£95.00
Quickwell Hill - Tyddewi	11	-	£95.00

Atodiad 3: Cynlluniau Parcio Preswylwyr – Rhestr cynlluniau

	Lleoliad	Heol/Ardal	Eiddo Cymwys
1	Aberllydan	Marine Road	Eiddo yn Marine Road
2	Dale		Eiddo a adnabyddir fel Rhif 2 The Griffin Inn, Rhif 4 Richmond House, Rhif 6 Easton House, Rhif 13 The Cottage a'r Clwb Hwyllo
3.1	Hwlfordd	Bush Row (Albany Court)	Eiddo yn Bush Row a Albany Court
3.2	Hwlfordd	Cambrian Place	Eiddo yn Cambrian Place
3.3	Hwlfordd	Cartlett	Eiddo yn Cartlett
3.4	Hwlfordd	Castletown	Eiddo yn Chapel Lane, Church Street, Castle Street, Castle Terrace, Ebenezer Row, Gloucester Terrace, Hayguard Lane, Holloway, Kiln Road, North Street a Queens Square
3.5	Hwlfordd	Crowhill	Eiddo yn Crowhill
3.6	Hwlfordd	Merlins Hill	Eiddo yn Merlins Hill
3.7	Hwlfordd	North Crescent	Eiddo yn North Crescent a North Gate
3.8	Hwlfordd	Winch Crescent	Eiddo yn Winch Crescent
4.1	Aberdaugleddau	Lower Robert Street	Eiddo yn Lower Robert Street, 1-25 odrifau cynhwysol, Rhif 2,4, The Hall a Garej Freemans Robert Street
5.1	Neyland	Neyland Hill	Eiddo yn Neyland Hill
6.1	Penfro	Woodbine Terrace	Eiddo yn Woodbine Terrace
7.1	Doc Penfro	Apley Terrace	Eiddo yn Apley Terrace
7.2	Doc Penfro	Bush Street	Eiddo yn Bush Street
7.3	Doc Penfro	Church Street	Eiddo yn Church Street
7.4	Doc Penfro	Dimond Street East	Eiddo ar hyd Dimond Street i'r dwyrain o Laws Street
7.5	Doc Penfro	Gordon Street	Eiddo yn Gordon Street
7.6	Doc Penfro	Gwyther Street	Eiddo Rhif 4-60 eilrifau cynhwysol a 1-47 odrifau cynhwysol yn Gwyther Street
7.7	Doc Penfro	Laws Street	Eiddo yn Laws Street
7.8	Doc Penfro	Lewis Street	Eiddo yn Lewis Street
7.9	Doc Penfro	Pembroke Street	Eiddo yn Pembroke Street
7.10	Doc Penfro	Upper Laws Street	Eiddo yn Upper Laws Street
7.11	Doc Penfro	Upper Meyrick Street	Eiddo Rhif 40-80 eilrifau cynhwysol, Rhif 33-75 odrifau cynhwysol, Canolfan Addysg Oedolion, Eglwys y Drindod ac Eglwys Bedyddwyr Bethel
8.1	Dinbych-y-pysgod	Augustus Place	Eiddo yn Jones Terrace, Augustus Place a Hamilton Court
8.2	Dinbych-y-pysgod	Clareston Road	Eiddo yn Clareston Road
8.3	Dinbych-y-pysgod	Culver Park	Eiddo yn Culver Park
8.4	Dinbych-y-pysgod	Esplanade	Eiddo ar The Esplanade
8.5	Dinbych-y-pysgod	Greenhill Avenue	Eiddo yn Greenhill Avenue

8.6	Dinbych-y-pysgod	Harding Street	Eiddo yn Harding Street, Harding Villas, Weston Terrace, Island Cottages a Warren House
8.7	Dinbych-y-pysgod	Harries Street	Eiddo yn Harries Street
8.8	Dinbych-y-pysgod	Heywood Court	Eiddo yn Heywood Court
8.9	Dinbych-y-pysgod	Lower Frog Street	Eiddo yn Lower Frog Street
8.10	Dinbych-y-pysgod	Park Place/Park Terrace/Edward Street	Eiddo yn Edward Street, Park Place, Park Terrace a Tyssul Court
8.11	Dinbych-y-pysgod	Penally Road	Eiddo yn Penally Road
8.12	Dinbych-y-pysgod	Picton Road	Eiddo yn Picton Road
8.13	Dinbych-y-pysgod	Picton Terrace	Eiddo yn Picton Terrace
8.14	Dinbych-y-pysgod	Queens Parade	Eiddo yn Queens Parade
8.15	Dinbych-y-pysgod	Southcliff Street	Eiddo yn Southcliff Street a Southcliff Gardens
8.16	Dinbych-y-pysgod	St Florence Parade	Eiddo yn St Florence Parade
8.17	Dinbych-y-pysgod	St Johns Hill	Eiddo yn St Johns Hill, St Johns Croft, Garden Cottage a 1-10 The Green
8.18	Dinbych-y-pysgod	St Julian's Terrace	Eiddo yn St Julian's Terrace
8.19	Dinbych-y-pysgod	Sutton Street	Eiddo yn Sutton Street
8.20	Dinbych-y-pysgod	The Croft	Eiddo yn The Croft ac eithrio Croft Court
8.21	Dinbych-y-pysgod	The Norton	Eiddo yn The Norton a Norton Cottages
8.22	Dinbych-y-pysgod	The Paragon	Eiddo yn The Paragon a Gunfort Mansions
8.23	Dinbych-y-pysgod	Trafalgar Road	Eiddo yn Trafalgar Road a Church Park
8.24	Dinbych-y-pysgod	Victoria Street	Eiddo yn Victoria Street
8.25	Dinbych-y-pysgod	Warren Street	Eiddo yn Warren Street

Atodiad 4 – Rhestr apeliadau

PCN	Case Type	Comments	Case
PK00059790	Telephone	Permit space - no permit	Church Street
PK00055481	Postal	Permit space - no permit	Park Street
PK00061340	Postal	Loading Bay	White Lion Street
PK00077726	Telephone	Single Yellow	Robert Street
PK00078950	Telephone	Limited Waiting Bay	Bush Street
PK00088237	Telephone	Loading Bay	High Street (Narbert)
PK00077282	Postal	Loading Bay-Goods	High Street (Narbert)
PK00075243	Telephone	Resident Bay	Pembroke Street
PK00053783	Telephone	No P&D	The Harbour - CP
PK00088322	Postal	Loading Bay-Goods	Lower Meyrick Street
PK00054403	Postal	Single Yellow	Spring Gardens
PK00091997	Postal	Resident Bay	The Esplanade
PK0005439A	Postal	Double Yellow	High Street (Saunders)
PK0012664A	Postal	Resident Bay	The Esplanade
PK00108375	Postal	Double Yellow	Queen Street
PK00079583	Postal	Double Yellow	High Street (St Dogmales)
PK00118925	Personal	Resident Bay	The Esplanade
PK00085145	Postal	No P&D	Lower Meyrick St - CP
PK00098646	Postal	Loading Bay	White Lion Street
PK0010394A	Personal	Double Yellow	Dew Street (Haverfordwest)
PK00110670	Postal	Single Yellow	North Street (Haverfordwest)
PK00106846	Postal	Single Yellow	Water Street
PK0009191A	Postal	Loading Bay	St Florence Parade
PK00145236	Postal	Disabled Bay	St Florence Parade
PK00115665	Postal	Bus Bay	Upper Park Road
PK00127620	Postal	Loading Bay	St Florence Parade
PK00154430	Postal	Bus Bay	Upper Park Road
PK00111325	Postal	No P&D	Gordon St - CP
PK00135753	Postal	Loading Bay-Goods	High Street (Haverfordwest)
PK00171043	Postal	No P&D	Multi Storey- CP (Tennyson)
PK00143128	Telephone	Resident Bay	Upper Meyrick Street
PK00135731	Postal	Out Of Bay	Castle Lake - CP
PK00066402	Postal	Single Yellow	Common Road
PK00155091	Postal	Loading Bay-Goods	High Street (Haverfordwest)
PK0018034A	Telephone	Resident Bay	Holloway
PK00143026	Personal	No P&D	Gordon St - CP
PK00146250	Postal	Resident Bay	Trafalgar Road (Tenby)
PK00143106	Telephone	No P&D	Gordon St - CP
PK00189581	Postal	Limited Waiting Bay	Dew Street (Haverfordwest)
PK00133361	Personal	Kerb Markings	Main Street (Pembroke)
PK00135549	Personal	Double Yellow	Barn Street
PK00189694	Telephone	Loading Bay-Goods	Victoria Place
PK00185682	Postal	Loading Bay-Goods	High Street (Haverfordwest)